

Trefniadau drafft gwerthuso a gwella ar gyfer Cymru

Mae’r trefniadau hyn yn ymwneud â hyrwyddo newidiadau sylweddol o fewn y system a’r diwylliant er mwyn ategu a diogelu’r broses ddiwygio. Yn y bôn, sicrhau gwelliant parhaus i holl haenau’r system yw’r nod. Mae’r fframwaith yn rhoi blaenoriaeth i hunanwerthuso effeithiol sy’n sail i’r blaenoriaethau i gefnogi dysgu a gwella, sefydlu cydweithredu, meithrin hyder, a chodi safonau ar gyfer ein holl ddysgwyr.



Egwyddorion

Bydd y system werthuso a gwella ddiwygiedig yn gweithio fel hyn:

Teg

Hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant, dewis, llwybrau unigol i ddysgu a pheidio byth â cholli golwg ar y dysgwr.

Cydlynol

Pob rhan o’r system yn cydweithio heb orgyffwrdd, â rolau a chyfrifoldebau clir.

Cymesur

Sicrhau bod modd gweithredu’r system a’r broses newydd yn ymarferol a’u bod yn gwneud gwahaniaeth, gan hyrwyddo diwylliant sydd, o ran atebolrwydd lefel ysgol, yn cael eu rheoli fwyfwy gan ysgolion hunan-ymwybodol lleol eu hunain.

Tryloyw

Cydnabod ystod y profiadau dysgu ar draws ysgolion a’r gwerth ychwanegol y mae athrawon yn dod ag ef i’r dosbarth.

Bydd y dull cyflawni yn canolbwyntio ar:

- hunanwerthuso
- dysgu
- cydweithredu
- gwella
- adolygiadau a chefnogaeth gan gymheiriaid
- dangosyddion gwerthuso
- cynllunio ar gyfer gweithredu.

	Ysgolion	Awdurdodau lleol	a	Chonsortia rhanbarthol	Llywodraeth Cymru
Tystiolaeth, data a gwybodaeth ehangach	Ystod o ddangosyddion ansawdd fel sail i werthuso a gwella, sy’n gysylltiedig â <i>Cenhadaeth ein cenedl</i> a Cwricwlwm i Gymru. Gall y rhain gynnwys: mesurau yn seiliedig ar gymwysterau; dangosyddion lles ac amddifadedd; gwybodaeth asesu; gwybodaeth am Brofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol; gwybodaeth am gynnydd neu sy’n rhoi gwerth ychwanegol. Dylent gynnwys addysg heblaw yn yr ysgol a dysgwyr sy’n dilyn cwricwlwm gwahanol lle bo’n briodol; tueddiadau data hydredol.	Ystod o ddangosyddion ansawdd fel sail i werthuso a gwella. Yn gysylltiedig â <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>, ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol, a thelerau ac amodau grantiau. Gall y rhain gynnwys: cynnydd/darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol; meini prawf llwyddiant sy’n gysylltiedig ag amodau grantiau; effaith ymyriadau mewn ysgolion sy’n peri pryder; tueddiadau data hydredol.		Ystod o ddangosyddion fel sail i werthuso a gwella. Yn gysylltiedig â <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>, Cwricwlwm i Gymru, a thelerau ac amodau grantiau. Gall y rhain gynnwys: meini prawf llwyddiant sy’n gysylltiedig ag amodau grantiau; effaith gwaith cefnogi ysgolion a chefnogi ysgolion i hunan-wella; tueddiadau data hydredol.	Ystod o ddangosyddion fel sail i werthuso, ymgysylltu a gwella a llywio’r ffordd y caiff polisi ei greu. Yn gysylltiedig â blaenoriaethau <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>. Gall y rhain gynnwys: samplau cenedlaethol ym meysydd allweddol y cwricwlwm; gwybodaeth am gymwysterau cenedlaethol; PISA (bob 3 blynedd); Adroddiad Blynyddol Estyn; y Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu; Arolwg Cenedlaethol Cymru, gwybodaeth am amddifadedd.
Hunanwerthuso ar gyfer gwelliant parhaus	Sefydlu trefniadau hunanwerthuso effeithiol i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddefnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Defnyddio egwyddorion adnoddau gwerthuso a gwella cenedlaethol ac ysgolion fel sefydliadau sy’n dysgu. Y nod yw gweithredu <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>.	Sefydlu trefniadau hunanwerthuso effeithiol i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddefnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Amcanion gwella ysgolion corfforaethol a strategol, cyflwyno addysg ac ansawdd yr addysg honno, a meini prawf llwyddiant cyllid grant y cytunwyd arnynt. Y nod yw gweithredu <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>.		Sefydlu trefniadau hunanwerthuso effeithiol i nodi cryfderau a blaenoriaethau ar gyfer gwella, gan ddefnyddio ystod o ddata ansoddol a meintiol. Amcanion gwella ysgolion y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol, a meini prawf llwyddiant cyllid grant y cytunwyd arnynt. Y nod yw gweithredu <i>Cenhadaeth ein cenedl</i>.	Hunanwerthuso effeithiol yn erbyn blaenoriaethau <i>Cenhadaeth ein cenedl</i> a strategaethau a diwygiadau ym maes addysg gan Lywodraeth Cymru.
Crynodeb o’r blaenoriaethau gwella a’r cynllun gweithredu	Gwneud deilliannau’r trefniadau hunanwerthuso yn sail i gynllun datblygu’r ysgol. Rhannu’r blaenoriaethau gwella â rhanddeiliaid dros dair blynedd ynghyd â naratif o’r cyd-destun. Defnyddio blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol i bennu targedau, a fyddai felly yn unigryw i bob ysgol.	Gwneud deilliannau’r trefniadau hunanwerthuso yn sail i drefniadau cynllunio corfforaethol yr awdurdod lleol. Rhannu’r blaenoriaethau gwella a’r camau gweithredu fel rhan o’r trefniadau cynllunio corfforaethol.		Gwneud deilliannau’r trefniadau hunanwerthuso yn sail i’r cynllun busnes a’r trefniadau gwella rhanbarthol. Rhannu’r blaenoriaethau gwella a’r camau gweithredu fel rhan o’r trefniadau cynllunio.	Cyhoeddi’r prif ganfyddiadau a’r camau allweddol. Bwrw ymlaen i weithredu ynghyd â’r prif randdeiliaid a sefydliadau haen ganol. Gwneud deilliannau’r broses hunanwerthuso yn sail i’r trefniadau cynllunio gwelliant a datblygu polisi.
Cymorth, cydweithredu a gwella	Dylai’r ysgol a’r consortiwm rhanbarthol gytuno ar lefel y cymorth a roddir i ysgolion. Y nod fydd cryfhau gallu ysgolion i wella eu hunain. I ysgolion y mae angen y cymorth mwyaf arnynt, bydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun cymorth ar y cyd. Bwrw ymlaen i wella a chefnogi gan ymgysylltu â chymheiriaid fel y bo’n briodol.	Gwerthuso a gwella rhanbarthol ynghyd â Llywodraeth Cymru. Defnyddio opsiynau ymgysylltu â chymheiriaid yn effeithiol lle bo’n briodol. Rhoi cefnogaeth lawn i ysgolion y mae angen y cymorth mwyaf arnynt, a bydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun cymorth ar y cyd. Bydd gan y Cyngor drefniadau mewmol ar gyfer ymgysylltu a llywodraethiant.		Gwerthuso a gwella rhanbarthol ynghyd â Llywodraeth Cymru. Defnyddio opsiynau ymgysylltu â chymheiriaid yn effeithiol lle bo’n briodol. Sefydlu cynlluniau rhanbarthol ar y cyd a chydweithredu i gefnogi gwelliant a chysondeb. Rhoi cefnogaeth lawn i ysgolion y mae angen y cymorth mwyaf arnynt, a bydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun cymorth ar y cyd. Ymgysylltu â’r Cydbwyllgor fel rhan o lywodraethiant effeithiol.	Adborth gan randdeiliaid. Adolygiad gan gymheiriaid cenedlaethol a rhyngwladol. Rhoi cefnogaeth lawn i ysgolion y mae angen y cymorth mwyaf arnynt, a bydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun cymorth ar y cyd.
Atebolrwydd democrataidd	Swyddogaethau statudol cyrff llywodraethu ar gyfer llywodraethiant ysgolion.	Craffu democrataidd. Defnyddio pwerau statudol yn effeithiol.		Craffu democrataidd drwy’r Cydbwyllgor/Cydgrŵp Gweithredol a chraffu lleol.	Craffu democrataidd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phwyllgorau ategol.
Arolygu a chyngor	Atebolrwydd drwy arolygu a rheoleiddio effeithiol, cyson o fewn cyd-destun, gan gynnwys Adran 50 yn achos Ysgolion Ffydd.	Atebolrwydd drwy arolygu a rheoleiddio effeithiol, cyson o fewn cyd-destun. Swyddfa Archwilio Cymru – swyddogaeth archwilio flynyddol.		Atebolrwydd drwy arolygu a rheoleiddio effeithiol, cyson o fewn cyd-destun. Swyddfa Archwilio Cymru – swyddogaeth archwilio flynyddol.	Swyddfa Archwilio Cymru – swyddogaeth archwilio flynyddol. Argymhellion cylch gwaith Estyn, e.e. arolygiadau ac adolygiadau thematig.